

<b>CYFARFOD:</b>	<b>PWYLLGOR IAITH</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>HYDREF 11 2012</b>
<b>TEITL:</b>	<b>ENWAU SAFONOL STRYDOEDD, TAI A LLEOEDD</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	<b>CAIS AM WYBODAETH GEFNIDIR GAN Y PWYLLGOR IAITH</b>

## **1. Enwau Strydoedd**

- 1.1. Pan adeiladir neu datblygir stryd neu stad newydd, disgwylir i'r datblygwr neu adeiladwr gysylltu â'r Cyngor gydag enw. Os cynigir enw di-Gymraeg, anfonir gohebiaeth yn gofyn iddynt ail-ystyried yr awgrym yng ngoleuni ieithwedd, diwylliant a hanes yr ardal.
- 1.2. Nid oes gan y Cyngor unrhyw hawl i orfodi enwau Cymraeg ar ddatblygiadau newydd, ond drwy ohebu fel yr amlinellir uchod, rydym yn manteisio hyd eithaf ein dylanwad ar y cyfle i arddel enwau Cymraeg. Dywed y Swyddogion perthnasol fod y rhan fwyaf o'r enwau newydd a awgrymir yn parchu'r Gymraeg a bod y cyngor i ail-ystyried yn effeithiol yn rhan fwyaf o achosion lle awgrymir enw di-Gymraeg yn y lle cyntaf. Anaml bellach ceir achosion o fynnu ar enw Saesneg (mae'r rhan fwyaf o'r rhain i'w cael yn Ne'r Sir).
- 1.3. Mae'r Cyngor yn pasio unrhyw gyfeiriadau newydd i'r Swyddfa Bost. Nid oes ganddynt unrhyw broblem gyda derbyn enwau uniaith Gymraeg; yr unig sail iddynt wrthod enw newydd yw os yw'n rhy debyg i enw sy'n bodoli'n barod neu debygol o achosi unrhyw ddryswch.
- 1.4. Gydag enwau hanesyddol, nid oes gennym gymaint o ddylanwad dros restr y Swyddfa Bost, yn yr achosion yma, maent yn nodi fersiwn Saesneg a Chymraeg (os oes yna ddau fersiwn), ond heb roi pwyslais ar hyrwyddo'r fersiwn Cymraeg.
- 1.5. . I bwrpas safoni a chroesgyfeirio, mae'n rhaid i restr safonol y Cyngor (y Gofrestr Tir ac Eiddo) gydnabod y fersiynau Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg. Fodd bynnag, o fewn y Cyngor rhoir y pwyslais ar y fersiwn Gymraeg; dywed y Cynllun Iaith:

**“.....enwau Cymraeg yn unig a ddefnyddir gan y Cyngor mewn perthynas ag enwau lleoedd, afonydd, mynyddoedd, strydoedd newydd ac ati, ac ar sefydliadau'r Cyngor ac eithrio lle bo'r Cyngor ei hun wedi awdurdodi defnyddio fersiwn/fersiynau eraill.” (4.2.1)**

- 1.6. Cyflwynwyd Adroddiad I'r Is-Bwyllgor Iaith ar 27/04/04 ar y Gofrestr Tir ac Eiddo (dan y teitl *Cysoni Cyfeiriadau yng Nghronfeydd Data*) a phenderfynodd yr Is-Bwyllgor y byddai'r Cyngor yn arddel y fersiynau Cymraeg o gyfeiriadau:

**PENDERFYNWYD: Cymeradwyo trefn o gysoni data cyfeiriedig mewn modd sy'n arddel y Gymraeg lle mae dewis ac yn sicrhau cysondeb ieithyddol ar gyfer data cyfeiriedig ar draws holl gronfeydd data'r Cyngor.**

- 1.7. Mae'r egwyddor o ddefnyddio cyfeiriadau Cymraeg i'w weld yn ein Cynllun Iaith ac ym mhenderfyniad yr Is-Bwyllgor. Fodd bynnag, mi all y Pwyllgor ystyried os oes angen cryfhau hyn: Er enghraifft, atgoffa Penaethiaid o'r disgwyl i ddefnyddio enwau strydoedd Cymraeg yn unig (gan gynnwys mewn gohebiaeth Saesneg) a hefyd i'w gwneud yn glir bod y disgwyl yma'n ymestyn tu hwnt i "strydoedd newydd" (heblaw am achosion prin lle nad oes enw Cymraeg).
- 1.8. Mae Comisiynydd y Gymraeg ar hyn o bryd yn ymchwilio achos yn ymwneud a'r defnydd o gyfeiriadau Cymraeg. Mae'r Cyngor eisoes wedi darparu gwybodaeth, ac yn amlwg, byddwn yn dilyn yr ymholiad ac yn ymateb i unrhyw gyfarwyddyd ddaw gan y Comisiynydd yn sgil cwblhau'r gwaith.

## **2. Enwau Tai**

- 2.1. Cyflwynwyd adroddiad ar enwau tai a'r iaith Gymraeg i'r Is-Bwyllgor Iaith ar Ionawr 27, 2009. Adroddwyd bryd hynny nad oedd gan y Cyngor unrhyw rym i orfodi enwau Cymraeg ar dai nag ychwaith i orfodi enwau hanesyddol.
- 2.2. Fodd bynnag, gan fod angen adrodd unrhyw newid enw neu enwau newydd i'r Adran Ymgynghoriaeth, nodwyd bod yr Adran yn anfon llythyr safonol i'r sawl sy'n cynnig enw di-Gymraeg neu newid enw o'r Gymraeg yn nodi'r rhesymau diwylliannol, hanesyddol a demograffig dros gadw enwau Cymraeg. Nodwyd yn 2009 bod y perswâd yma'n llwyddiannus yn y mwyafrif helaeth o achosion.

- 2.3. Mae'n ymddangos nad yw'r sefyllfa wedi newid ers 2009. Addaswyd y llythyr safonol i adlewyrchu newidiadau o safbwynt sefydlu rôl y Comisiynydd Iaith, a gellir cadarnhau fod y tueddiad tuag at ddewis Enwau Cymraeg a nodwyd yn flaenorol yn parhau fel y gellir gweld o'r tabl isod:

### **Newid enwau tai yng Ngwynedd Mawrth 2010- Ebrill 2012**

Saesneg i'r Gymraeg	Cymraeg i'r Saesneg	Cymraeg i'r Gymraeg	Saesneg i'r Saesneg	Arall
23	2	21	2	1

### **3. Enwau Lleoedd (Anheddau)**

- 3.1. Ar 5ed Rhagfyr 2008, trefnwyd cyfarfod rhwng Grŵp Tasg o'r Is-Bwyllgor Iaith a Tîm Safoni Enwau Lleoedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Cwmpas y drafodaeth oedd enwau anheddau yng Ngwynedd. Cyflwynwyd y cofnodion i'r Is-Bwyllgor llawn ar 27/01/09, ac fe benderfynwyd:

**a) Cymeradwyo cofnodion y Grŵp Tasg a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2008.**

**b) Edrych ar y fannod yn y ffurfiau a gyflwynwyd a gwahodd y Tîm Safoni Enwau yn ôl am drafodaeth bellach.**

- 3.2. Ni fu cyswllt pellach rhwng y Tîm Safoni Enwau a'r Is-Bwyllgor, ac yn dilyn sefydlu rôl y Comisiynydd, mae gorchwyl y Tîm Safoni yma dan adolygiad. Disgwylir rhagor o fanylion at ddiwedd y flwyddyn, ond byddai croeso i ni gysylltu ag Uned Cyngor a Chefnogaeth Swyddfa'r Comisiynydd ynghlŷn â hyn yn y cyfamser. Noder yn ogystal ein bod wedi adrodd ar y mater yma yn dilyn sylwadau'r Comisiynydd ar ein Adroddiad Monitro Blynyddol

#### **4. Enwau Lleoedd (Daearyddol)**

- 4.1. Yng nghyfarfod mis Mehefin o'r Pwyllgor, codwyd yn ogystal pwysigrwydd defnyddio enwau Cymraeg lleol ar nodweddion daearyddol, megis trwynau, ynysoedd, clogwyni ayb. A hefyd i sicrhau enwau Cymraeg ar Lwybr Arfordir Cymru.
- 4.2. Mae'r Cynllun Iaith yn gwbl glir mai'r ffurfiau Cymraeg o enwau yn unig a ddefnyddir gan y Cyngor (gweler 1.5. uchod).
- 4.2. Pan mae'r Cyngor yn darparu enwau ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru, maent yn sicrhau mai'r ffurf Cymraeg sy'n cael ei ddefnyddio. Wrth gwrs, fe all fod yna eithriadau i hyn ac esiamplau eraill pan ddefnyddir enwau o'r Arolwg Ordnans. Y ffordd orau o fynd i'r afael a hyn yw nodi esiamplau penodol, gan bwysu am newid.
- 4.3. Yr un fyddai'r drefn gydag enwau Saesneg ar fapiau'r Ordnans. Efallai byddai'n werth nodi fod Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn weithgar yn y maes yma; un o amcanion y Gymdeithas yw " Gwarchod enwau lleoedd Cymru", ac efallai byddai modd gwahodd cynrychiolydd o'r Gymdeithas i gyfarfod a'r Pwyllgor i son fwy am waith y sefydliad a thrafod sut all y Cyngor eu cynorthwyo.

#### **5. Gofynnir i'r Pwyllgor**

- 5.1. Roi eu sylwadau ar y drefn bresennol o hyrwyddo enwau Cymraeg ar ddatblygiadau newydd a'r defnydd o'r Gymraeg ar enwau sy'n bodoli'n barod ar ein cofrestr Tir ac Eiddo
- 5.2. Ystyried ail-ymweld a'n trafodaethau gyda'r Tim Safoni Enwau Lleoedd.
- 5.3. Nodi unrhyw esiamplau penodol o enwau di-Gymraeg ar nodweddion daearyddol ac ystyried sefydlu trafodaethau gyda Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymru.